**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 22 Rhagfyr 2022 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | R Francis-Davies | L S Gibbard |
| H J Gwilliam | E J King | A S Lewis |
| A Pugh | R V Smith | A H Stevens |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Ness Young | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): C A Holley

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): D H Hopkins

---

## 108. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Datganodd y Cynghorwyr R Francis-Davies, L S Gibbard, A Pugh, R V Smith a A H Stevens gysylltiad personol â Chofnod 112 “Cynigion y Gellideb 2023/24 – 2026/27”.

## 109. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

## 110. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 111. Hawl i holi cynghorwyr.

Gofynnodd y Cynghorydd C A Holley nifer o gwestiynau yn ymwneud â Chofnod 112 “Cynigion Cyllideb 2023/24-2026/27”.

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor.

## 112. Cynigion y Gyllideb 2023/24 - 2026/27. **

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Brys:*** *Mae'r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "naill ai Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Swyddog Adran 151 neu'r Swyddog Monitro'n ardystio y gallai unrhyw oedi sy'n debygol o gael ei achosi gan y weithdrefn galw i mewn wneud niwed i'r cyngor neu fudd y cyhoedd, gan gynnwys methu cydymffurfio â gofynion statudol".*

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn ystyried cynigion cyllidebol ar gyfer 2023/2024 i 2026/2027 fel rhan o strategaeth cyllideb bresennol y cyngor.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r cynigion cyllidebol a grynhowyd yn yr adroddiad ac y nodwyd yn Atodiad B yr adroddiad fel sail ymgynghoriad.

2) Mabwysiadu'r rhagolwg cyllidebol diweddaredig ar gyfer y dyfodol fel y rhagosodiad cynllunio cychwynnol ar gyfer y cynllun ariannol tymor canolig, a gaiff ei ystyried gan y cyngor ar 2 Mawrth 2023.

3) Cytuno ar yr ymagwedd at ymgynghori ac ymgysylltu â staff, undebau llafur, preswylwyr, partneriaid a phartïon eraill â diddordeb fel y'u hamlinellir yn Adran 7 yr adroddiad.

4) Cyflwyno adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad a'r cynigion cyllidebol terfynol yn ei gyfarfod ar 16 Chwefror 2023.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.39 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 22 Rhagfyr 2022 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | - |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 22 Rhagfyr 2022 |